

Y LLYFRGELL YSTWYTH

Strategaeth y Llyfrgell 2011-2012 i 2013-2014

Chwefror 2011



Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



1 Cyflwyniad

- 1.1 Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw un o brif sefydliadau cenedlaethol Cymru.
- 1.2 Mae'r Llyfrgell yn **sefydliad diwylliannol** canolog. Mae'n gweithredu fel cof tymor hir cyfunol i Gymru, ac yn helpu i ddiffinio, i bobl Cymru ac i'r byd, ran o'r hyn a olygir wrth 'ddiwylliant Cymru' neu, yn gywirach, 'ddiwylliannau Cymru'.
- 1.3 Mae hefyd yn **sefydliad gwybodaeth** o bwys. Yn rhinwedd ei statws fel llyfrgell adnau cyfreithiol ('hawlfraint') yn bennaf¹; mae iddi ran allweddol yn y gwaith o adeiladu economi a chymdeithas sy'n seiliedig ar wybodaeth a hysbysrwydd yng Nghymru.
- 1.4 Mae'r cynllun hwn yn ceisio mapio llwybr ar gyfer datblygiad y Llyfrgell yn ystod y tair blynedd nesaf (2011-2012 i 2013-2014, gan ddechrau yn Ebrill 2011).

Mae'n cynnig strategaeth sy'n ceisio cadw gwaith hanfodol presennol y Llyfrgell, tra'n bwrw ymlaen â'r broses o ryddhau'r potensial aruthrol sydd gan y Llyfrgell i gyfoethogi pobl Cymru er budd cynulleidfaoedd ehangach a defnyddwyr newydd gan ddefnyddio prosesau busnes newydd ac effeithlon.

- 1.5 Defnyddiwyd y ffynonellau canlynol wrth lunio'r cynllun hwn:
 - y Siarter Frenhinol a sefydlodd y Llyfrgell Genedlaethol ac sy'n parhau i lywodraethu ei swyddogaethau²;
 - y Strategaeth flaenorol, a oedd yn ymwneud â'r cyfnod 2008 – 2009 i 2010 – 2011; y mae nifer o'r datblygiadau tymor hir sydd ynddi'n parhau i fod yn berthnasol i'r dyfodol³;
 - sesiynau ymgynghori gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Y Corff Ymgynghorol a staff y Llyfrgell;
 - yr ymatebion a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar ddiwedd 2010.

¹ Mae Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol 2003 yn rhoi'r hawl i'r Llyfrgell hawlio, yn rhad ac am ddim, gopi o bob gwaith printedig a gyhoeddir yn y Deyrnas Unedig ac yn Iwerddon; bydd deddfwriaeth eilaidd yn ymestyn gweithrediad yr hawl hwn gam wrth gam i gategoriâu defnyddiau amhrintiedig.

² http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Siartr_2006.pdf

³ http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/nlw_strategy_c.pdf

2 Cenhadaeth a chymeriad y Llyfrgell

- 2.1 Pennwyd natur sylfaenol waith y Llyfrgell gan y Siarter Frenhinol a sefydlodd fodolaeth y Llyfrgell yn 1907. Mae geiriad newydd y Siarter yn nodi mai swyddogaethau'r Llyfrgell yw:

casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.

Y Siarter yw'r sail i nifer o nodweddion allweddol y Llyfrgell:

- ei phwyslais ar ddeunydd o ddiddordeb Cymreig (a Cheltaidd)
- ei chyfrifoldebau casglu ehangach (sy'n seiliedig ar adnau cyfreithiol a phrynu)
- y ffaith ei bod yn casglu defnyddiau mewn cyfryngau mor amrywiol
- ei chenhadaeth i gynorthwyo ymchwilwyr a'r rhai mewn addysg

- 2.2 Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n derbyn Grant Cymorth bob blwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Diffinnir y berthynas rhwng y Llyfrgell a'r Lywodraeth mewn *Datganiad rheoli a memorandwm ariannol* diwygiedig.

3 Egwyddorion a gwerthoedd

3.1 Mae bodolaeth a gwaith y Llyfrgell yn dibynnu ar rai egwyddorion a gwerthoedd, sy'n cael eu rhannu gan y rhai sy'n ei llywodraethu, yn gweithio ynddi ac yn ei defnyddio. Fe'u hystyrir yn rhai sy'n ategu gwerthoedd ac egwyddorion Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol wrth arwain gwaith y Llyfrgell.

3.2 Mae rôl hollbwysig i'r Llyfrgell fel casglwr a cheidwad y cofnod deallusol o fywyd Cymru a'i phobl. Mae hyn yn bwysig ynddo'i hun, ac yn elfen bwysig hefyd wrth ddiffinio hunaniaethau diwylliannol y wlad.

Mae statws gwleidyddol newydd Cymru yn gynnyrch y pwys newydd a roddir ar hunaniaethau diwylliannol, a bydd yn cyfrannu at hynny ei hun. Mae'n debygol y bydd gan y Llyfrgell ran bwysig i'w chwarae wrth adlewyrchu, cofnodi a hyd yn oed ffurfio'r hunaniaethau hynny.

3.3 Nid yw'r cofnod deallusol hwn yn gyfyngedig i unrhyw gyfrwng, fformat, cyfnod neu iaith benodol.

Ers ei chychwyn mae'r Llyfrgell yn fwy na'r hyn a gydnabyddir yn gonfensiynol fel 'llyfrgell', sef casgliad o weithiau printiedig. Mae'n storio amrywiaeth gynyddol o fformatiau sy'n gallu dal cynnwys deallusol. Yn eu plith y mae: llyfrau a chyfnodolion, llawysgrifau ac archifau, lluniau, ffotograffau a mapiau, sain a delweddau symudol, a deunydd electronig.

3.4 Er hynny, mae'r cofnod hwn o 'ddefnyddiau Cymru' (a'r gwledydd Celtaidd eraill) yn rhan o faes ehangach, un byd-eang yn wir, o wybodaeth gofnodedig, a gynhyrchwyd mewn llawer o ieithoedd a thros lawer o ganrifoedd; y mae'r Llyfrgell yn ceisio'i chynrychioli yn ei chasgliadau er budd ei defnyddwyr.

Mae casgliadau ehangach y Llyfrgell, a geir ar ffurf brintiedig drwy adnau cyfreithiol yn bennaf, yn hollbwysig i'w gallu i gynorthwyo astudio a dysgu, nid yn unig yn y meysydd Cymreig neu Geltaidd, ond hefyd mewn amrywiaeth eang iawn o bynciau eraill.

3.5 Mae casgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell yn bodoli i ddiwallu anghenion pawb sy'n gallu cael budd ohonynt.

Mae'r Llyfrgell yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn llyfrgell gyhoeddus, yn yr ystyr y caiff unrhyw berson 16 oed neu drosodd groeso i dderbyn tocyn darllen a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio ei chasgliadau i ddibenion cyfeirio heb fawr o ffurfioldeb ac yn ddi-dâl. Rhai o'r grwpiau sy'n defnyddio'r Llyfrgell ar hyn o bryd i ddibenion ymgynghori a chyfeirio yw ymchwilwyr academiaidd a phersonol, myfyrwyr a dysgwyr eraill, busnesau, y cyfryngau, ac ymwelwyr o Brydain a thramor. Mae'r hawl hon i gael mynediad rhydd yn rhan o'r hawliau democrataidd sydd gan ddinasyddion wrth iddynt geisio hysbysrwydd, gwybodaeth ac eglurhad, ac mae'n cyfrannu at hyrwyddo 'cynhwysiant cymdeithasol'.

- 3.6 Mae gan y Llyfrgell ddyletswydd nid yn unig i 'ddal ei drysau'n agored', ond i hybu'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o'i chasgliadau a'i gwasanaethau, ym mhob modd sydd ar gael iddi.

Yn y gorffennol, roedd yn rhaid ymweld yn bersonol â'r Llyfrgell yn Aberystwyth fel arfer i fanteisio ar yr hyn oedd ar gynnig gan y Llyfrgell; yn y dyfodol, bydd mynediad drwy rwydwaith o bell, ac yn ddigidol yn arbennig, yn dod yn bwysicach. Mae'r nifer o weithiau y defnyddir y Llyfrgell o bell (gan gynnwys defnydd ar lein) yn fwy o lawer na nifer yr ymweliadau personol.

- 3.7 Mae gan y Llyfrgell swyddogaeth bwysig, fel y sefydliad mwyaf a phwysicaf o'i fath yng Nghymru, o ran arwain, cydlynu a hybu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau llyfrgell ac archifau yng Nghymru. Nid yw'r rhan hon o'i chenhadaeth yn un ddewisol, ond fe'i hystyrir yn hanfodol gan fod y mwyafrif o wasanaethau llyfrgell ac archifau'r wlad yn fychan a gwasgaredig. (Er i'r rôl hon newid drwy statws CyMAL fel corff strategol yn y meysydd hyn, mae'n dal i fod yn bwysig.) Bydd yn gweithio'n agos gyda CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru wrth gyflawni'r rôl hon.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn ei thro'n rhan o rwydwaith cydblethol ehangach o sefydliadau llyfrgell, gwybodaeth ac archifau yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Mae'n cydweithio â hwy i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i bawb.

Mae'r Llyfrgell yn edrych ar ôl yr adnoddau sydd yn ei gofal - yr adeilad, casgliadau, staff, cyllid a chyfleusterau - gyda golwg cyson ar eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

- 3.8 Ynglwm wrth egwyddorion a gwerthoedd y Llyfrgell yw'r angen i hyrwyddo, datblygu a chynnal yr egwyddorion a gynhwysir yng Nghynllun Gofodol Cymru a Chynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy i Gymru.
- 3.9 Ym mhob dim y mae'n ei wneud – boed hynny'n ateb ymholiadau, cyhoeddi llyfrau, trefnu arddangosfeydd, neu unrhyw weithgaredd perthnasol arall – mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn anelu at y safon uchaf posibl.

Fel corff sydd â throsglwyddo gwybodaeth wrth wraidd ei genhadaeth, mae'r Llyfrgell yn anelu at ragori wrth gyfathrebu'n effeithiol â phawb yn ei chylch, gan gynnwys defnyddwyr, staff a phartneriaid.

4 Swyddogaethau craidd

- 4.1 Ceir hanfod yr hyn mae'r Llyfrgell yn ei wneud yn ei phum 'Swyddogaeth Graidd'. Mae'r rhain yn pennu terfynau lleiaf ei pholisïau a'i hymarfer.

Diffinnir y Swyddogaethau Craidd isod, gan nodi ym mhob achos y prif ddull o'u cyflawni.

Casglu

- 4.2 Casglu defnyddiau drwy adnau cyfreithiol, prynu, rhoi, cymynroddion, cyfnewid ac adneuo, yn unol â'r polisïau datblygu casgliadau a gytunwyd.

- 4.3 Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- Iunio casgliad mor gyflawn â phosibl, ym mhob cyfrwng, o ddefnyddiau cyhoeddedig sy'n ymwneud â Chymru (ac i raddau llai y gwledydd Celtaidd eraill), gan gynnwys cyhoeddiadau printiedig a defnyddiau sain a delweddau symudol;
- gynnal (drwy adnau cyfreithiol a phrynu'n bennaf) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunydd printiedig a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, ac o ddeunydd ymchwil o wledydd eraill;
- ddatblygu casgliadau o ddefnyddiau sydd heb eu cyhoeddi sy'n ymwneud â Chymru neu'n deillio o Gymru, gan gynnwys archifau a gweithiau artistig;
- dderbynodi, prosesu, catalogio a storio'r deunydd a gesglir yn y dulliau mwyaf effeithlon.

Cadw

- 4.4 Cadw a gwarchod y defnyddiau yn y casgliad.

- 4.5 Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- sicrhau bod yr amgylchedd a'r amodau wrth storio a thrafod defnyddiau yn addas i'w cadw'n barhaus;
- ymyrryd i warchod defnyddiau a thrwy hynny atal eu dirywiad neu eu hatgyweirio;
- drosglwyddo gwybodaeth, mewn rhai achosion, i fformatiau mwy addas i'w chadw.

Rhoi mynediad a gwybodaeth

4.6 Darparu mynediad boddhaol ar gyfer defnyddwyr y Llyfrgell i'w hadeilad, ei chasgliadau a'i gwasanaethau, a gwybodaeth ddigonol amdanynt.

4.7 Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- parhau i fonitro, dadansoddi ac ymchwilio i anghenion y defnyddwyr;
- ddarparu mynediad i fannau cyhoeddus, casgliadau a chyfleusterau yn adeilad y Llyfrgell;
- ddarparu gwasanaethau cyflenwi dogfennau, ymholiadau a gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Llyfrgell, yn bersonol neu o bell;
- ddarparu mynediad rhwydd i gatalogau a rhestrau o gasgliadau'r Llyfrgell, ac adnoddau electronig cyhoeddedig, a chopïau dirprwyol digidol o ddetholiad ohonynt.

Cyhoeddusrwydd a dehongli

4.8 Hybu ymwybyddiaeth o waith a chasgliadau'r Llyfrgell a lledaenu gwybodaeth amdanynt.

4.9 Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- gyflwyno deunydd ar wefan y Llyfrgell;
- gyhoeddi arweiniadau, taflenni a defnyddiau cyhoeddusrwydd eraill;
- drefnu arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol sy'n deillio o'r casgliadau;
- drefnu darlithoedd a seminarau.

Cydweithio proffesiynol

4.10 Cydweithio â chyrrff proffesiynol cysylltiedig a chyrrff eraill ym meysydd gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth, archifau, rheoli cofnodion, amgueddfeydd ac orielau, gan roi arweiniad iddynt os yw'n briodol.

4.11 Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- weithredu fel canolbwynt i gyrff llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru;
- weithio gyda chyrrff yng Nghymru, ym Mhrydain ac mewn mannau eraill i hyrwyddo mentrau cydweithredol a phartneriaethau, a hybu arfer proffesiynol.

Swyddogaethau cefnogol

4.12 Mae'r Llyfrgell yn darparu sylfaen i gyflawni'r pum swyddogaeth graidd hyn drwy'r 'swyddogaethau cefnogol' a ganlyn:

- rheoli a datblygu ei hadnoddau dynol;
- cyllidebu, cadw trefn ac atebolrwydd ei hadnoddau ariannol, a chreu incwm a chodi arian;
- cynnal a chadw a datblygu isadeiledd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r Llyfrgell;
- cynnal a chadw a datblygu adeilad y Llyfrgell a'i gyfleusterau.

5 Gweledigaeth dymor hir

5.1 Beth mae'r Llyfrgell yn rhagweld fydd ei swyddogaeth ymhen deng mlynedd?

Yn fyr, yn adnodd academaidd, diwylliannol a gwybodaeth llwyddiannus, perthnasol ac uchel ei barch ar gyfer pobl Cymru a gweddill y byd.

5.2 Dyma fydd rhai o nodweddion diffiniol y Llyfrgell yn 2020⁴:

- bydd lefel yr arian cylchol yn sylweddol llai nag ar hyn o bryd o ran y canlynol: bydd y gyllideb costau rhedeg yn is, a chyflogir llai o staff; a gwaith mwy o'r rheiny fydd cynnig gwasanaeth i gynulleidfa o bell, gyda llai ohonynt yn ymwneud â phrosesu casgliadau a'r eitemau ynddynt;
- bydd rhai gwasanaethau wedi dod i ben neu wedi'u darparu mewn ffordd wahanol (a'u darparu'n fwy effeithlon);
- er y bydd deunydd yn dal yn cyrraedd ar ffurf corfforol (papur, yn bennaf), bydd elfen ddigidol y derbyniadau i'r casgliadau yn cynyddu'n sylweddol, diolch yn bennaf i adneuo cyfreithiol electronig llawn, ond hefyd wrth i bob math o dderbyniadau fod ar ffurf electronig;
- bydd y casgliadau presennol yn fwy adnabyddus ac wedi'u defnyddio yn well, diolch yn bennaf i reoli gwell ar fetadata a mwy o ddigideiddio;
- manteisir yn well ar ba mor ddefnyddiol yw'r Llyfrgell i ddysgwyr ac athrawon, a bydd y berthynas gynnwys â'r Llyfrgell yn parhau drwy gydol oes;
- bydd y Llyfrgell wedi'i hintegreiddio'n well â gwasanaethau gwybodaeth ac archifol eraill yng Nghymru, trwy, er enghraifft, y gwaith o ddatblygu llyfrgell electronig genedlaethol.

⁴ Am ragor o wybodaeth, wele'r ddogfen 2020: *Golwg hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru* (2010) <http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Gweledigaeth>

6. Y Prif Ddatblygiadau

Gwyddom y bydd y tair blynedd nesaf yn gyfnod o gynilo a chrebachu fel canlyniad i'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus a byddwn angen ymateb i hyn mewn sawl ffordd. Ac eto rydym yn benderfynol na fydd y Llyfrgell yn sefyll yn ei hunfan, ond yn hytrach yn dal i ddatblygu a symud i gyfeiriadau newydd. Adlewyrchir y ddau ffactor yma yn y datblygiadau isod. Bod yn hyblyg yw'r thema gyson trwyddi draw, yn wyneb ansicrwydd mawr yn ein cyd-destun.

Hyblygrwydd Sefydliadol

6.1 Datblygu ein staff

Os parheir gweithdrefnau presennol y Llyfrgell, sgil effaith posib y cyfyngu fydd gweithlu statig. Ein dymuniad yw sicrhau gweithlu hyblyg trwy:

- gyflwyno swyddi a sgiliau generig a fyddai'n caniatáu inni fuddsoddi yn fwy penodol yn natblygiad ein staff, gan ehangu eu profiad a'u sgiliau proffesiynol;
- anogi arloesedd ym mysg y staff wrth gydnabod eu cyfoeth sgiliau a gwybodaeth;
- adolygu'r rhaglen hyfforddi i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y Llyfrgell dros y cyfnod;
- ail-ymweld ag egwyddorion proses cynllunio'r olyniaeth er mwyn sicrhau parhad busnes i'r dyfodol;
- ymateb i'r dyhead am well effeithlonrwydd a hyblygrwydd sy'n gyrru'r datblygiadau rheoli a gynigir dros y cyfnod, er enghraifft drwy roi'r fframwaith cymwyseddau ar waith.

6.2 Diwygio ein prosesau busnes

Byddwn yn datblygu a gweithredu Rhaglen Trawsnewid Busnes fydd yn ein galluogi i gyflwyno prosesau rheoli a gweithredu main, a thrwy hynny gwneud gwell defnydd o'n holl asedau. Disgwylir i'r rhaglen hon gynhyrchu prosesau gweithio effeithlon ynghyd ag arbedion ariannol sylweddol. Mae'n debyg hefyd y bydd yn cyfrannu i raglenni effeithlonrwydd y Cynulliad.

6.3 Cydweithio

Mae'r Llyfrgell wedi datblygu a meithrin traddodiad hir a chryf o gydweithio ag ystod eang o sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Rhagwelir y bydd yn hanfodol i ni barhau i weithio'n agos gyda chyrrff arwyddocaol eraill er mwyn cyflawni ein hamcanion yn y dyfodol. Serch hynny, bydd cyfyngiadau adnoddau yn ein gorfodi i ystyried yn ofalus unrhyw bartneriaethau newydd. Rhain fydd y partneriaethau allweddol:

Partneriaethau strategol

- Llywodraeth y Cynulliad: daw llywodraeth newydd i rym yn ystod 2011 a bydd angen ymateb a chyfrannu i'w hagenda strategol newydd;
- Y Llyfrgell Brydeinig a'r llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill;
- Sefydliadau clyweledol rhyngwladol a Phrydeinig, e.e. BFI;

- Amgueddfa Cymru, yn arbennig yng nghyswllt rhaglen ‘Casgliad y Werin’;
- llyfrgelloedd, archifdai ac amgueddfeydd lleol, gan gyfrannu i ddatblygiadau posibl i ehangu’r gwasanaeth adnoddau electronig cenedlaethol a diwygio strwythur llyfrgelloedd lleol;
- Partneriaeth Ardal Adfywio Strategol Aberystwyth.

Partneriaethau gweithredol

- sefydliadau cyhoeddus eraill;
- Llywodraeth y Cynulliad;
- ysgolion a sefydliadau addysg uwch a bellach;
- llyfrgelloedd rhyngwladol;
- cwmnïau cyfryngol (teledu, radio, print a’r rhynggrwyd).

6.4 Ymateb i ddatblygiadau annisgwyl

Yn anochel daw datblygiadau a chynigion annisgwyl ger ein bron yn ystod cyfnod y strategaeth hon. Bydd ein gallu i fanteisio ar gyfleodd o’r fath yn gorfod cael ei asesu o ran y buddion a ddaw yn eu sgil a’r impact a gaent ar wasanaethau eraill y Llyfrgell. Bydd angen cydnabod na fydd modd ymgymryd â rhai partneriaethau a phrosiectau onis sicrheir cyllid ychwanegol digonol ar eu cyfer.

6.5 Datblygu ein technolegau

Byddwn yn parhau i gymryd mantais o’r cyfleoedd a gyfyd yn y meysydd datblygiadau technolegol a digidol, er mwyn cynnig gwasanaethau gwell a mwy cost-effeithiol:

- disgwylir i ddeilydd Cadair Prifysgol Cymru mewn Casgliadau Digidol osod cyfeiriad ar elfennau o’r datblygiadau digidol;
- adolygir Strategaeth y We, fydd yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd eisoes wrth wella’r gallu i ryngweithio gyda’n defnyddwyr, a manteisio ar y technolegau ar-lein newydd;
- darparir mwy o wasanaethau ar-lein ar gyfer ein defnyddwyr, gan gynnwys hybu’r adnoddau electronig, manteisio ar ryngwynebau newydd (e.e. Find My Past), ehangu gwasanaeth QuestionPoint;
- adolygu’r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

6.6 Manteisio ar gyfleoedd cyllidol a masnachol

Byddwn ni’n:

- sicrhau ystwythder cyllidol a cheisio arian allanol ar gyfer datblygiadau hanfodol;
- parhau i geisio codi incwm, er enghraifft trwy drwyddedu deunydd digidol, datblygu cynllun ‘Digido ar gyfer Busnes’ (ERDF) ac ystyried codi tâl am rai gwasanaethau;
- parhau i geisio codi arian (‘fundraising’).

6.7 Cynnal yr adeilad

Yn ystod y cyfnod byddwn yn ymgymryd ag addasiadau a gwelliannau raddfa isel i adeilad y Llyfrgell.

Hyblygrwydd Gwybodaeth a Chynnwys

Rhagwelir newid sylfaenol yn y modd y darperir gwybodaeth yn y cyfnod nesaf mewn ymateb i alw ein defnyddwyr. Rhaid ein bod yn ymateb yn hyblyg i'r disgwyliadau hyn.

6.8 Symud yn gyflym tuag at y digidol

Bydd pwyslais mwy fyth ar gasglu ac ailgyhoeddi deunydd ar ffurf ddigidol:

- byddwn yn datblygu ein cynlluniau digido, gan gynnwys Theatr y Cof⁵ (digido etifeddiaeth print Cymru);
- dechreuwn weithredu adnau cyfreithiol electronig wedi i'r Senedd gadarnhau'r Rheoliadau angenrheidiol.

6.9 Addasu ein dulliau casglu

Gweithredwn ein Polisi Casglu newydd. Ymateb y mae hwn i genhedlaeth newydd o ddefnyddwyr a defnyddwyr y dyfodol fydd yn disgwyl mynediad ar-lein i'n holl wybodaeth. O ganlyniad:

- byddwn yn fwy dethol yn yr hyn yr ydym yn ei gasglu sydd ar ffurf print;
- byddwn yn derbyn llawer mwy o gyhoeddiadau ac archifau sydd yn bodoli ar ffurf electronig yn unig; bydd yn ein gallu i sicrhau mynediad iddynt, a'u diogelu i'r dyfodol, yn hollbwysig;
- rhagwelir twf aruthrol yn yr ystod o adnoddau electronig fydd ar gael y tu allan i'r adeilad; yr her i'r Llyfrgell fydd ein gallu i gynnig mynediad iddynt.

6.10 Gwella ffyrdd o ddarganfod ein hadnoddau

Byddwn yn rhoi ein Strategaeth Darganfod Adnoddau newydd ar waith trwy:

- gydgasglu metadata, er enghraifft yn COPAC, OCLC WorldCat, Europeana;
- rhyddhau metadata, fel eu bod yn ganfyddadwy'n hawdd trwy beiriannau chwilio fel Google;
- llunio cynllun fydd yn mynd i'r afael â'r olgioniadau corfforol a digidol;
- symleiddio'r prosesau o afael a chreu metadata, a'u gwneud yn rhatach.

6.11 Storio a sicrhau defnydd yn y dyfodol

Erys yr angen i sicrhau gofal parhaol, cynaliadwy o'r casgliadau corfforol a digidol, a hefyd sicrhau mynediad atynt:

⁵ Am ragor o wybodaeth am y cynllun hwn wele'r ddogfen *Theatr y Cof: yn rhoi Cymru mewn print ar-lein* (2007) http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/theatr_y_cof.pdf

- yn sgil yr adolygiad presennol o'r gofod sydd ar gael i gasgliadau corfforol paratown opsiynau gwahanol ar gyfer storio traddodiadol, y tu mewn a thu allan i'r adeilad, a gwireddu'r opsiynau gorau;
- darparwn storfeydd digidol priodol i'r casgliadau electronig, ac o bosibl i ddeunydd sefydliadau eraill.

Hyblygrwydd yn ein Perthynas â'n Defnyddwyr

Defnyddwyr y Llyfrgell, boed hwy'n ddarllenwyr ac ymwelwyr yn yr adeilad neu ddefnyddwyr o bell, sy'n diffinio gwerth y Llyfrgell. Gwnawn ni'n gorau i roi defnyddwyr a darpar-ddefnyddwyr yng nghanol ein meddwl a'n gweithgareddau.

6.12 Casglu a monitro gwybodaeth am ddefnyddwyr

Casglwn ni fwy o wybodaeth berthnasol am ymddygiad a gofynion ein defnyddwyr mewn cyswllt â'r adeilad, y casgliadau a'r gwasanaethau, a sicrhau bod ein strategaethau a'n polisïau yn adlewyrchu eu gofynion. Yn arbennig byddwn:

- yn ymchwilio i'r rhyngwyneb rhwng casgliadau digidol a'n defnyddwyr;
- yn cyfoethogi eu defnydd o'n systemau, er enghraifft trwy systemau chwilio;
- yn cynnal archwiliad o'r rhaglen arddangosfeydd;
- yn sicrhau mai dyheadau ein defnyddwyr sy'n helpu gyrru ein rhaglenni digido.

6.13 Annog cyfraniadau gan ein defnyddwyr

Anelwn at annog defnyddwyr i gyfrannu at y Llyfrgell mewn dulliau newydd:

- trwy wirfoddoli mewn sawl ffordd o fewn yr adeilad;
- trwy gyfrannu gwybodaeth - er enghraifft metadata - o bell;
- trwy lledaenu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Llyfrgell yn lleol ac o bell.

6.14 Cynyddu'r nifer o ddefnyddwyr

Ein bwriad yw denu mwy o ddefnyddwyr, trwy:

- ehangu apêl addysgol y Llyfrgell ar bob lefel;
- cynyddu'r nifer o ddarllenwyr o bell trwy eu galluogi i ymaelodi â'r Llyfrgell ar yr un adeg ag ymaelodi â Llyfrgell neu archifdy lleol.

7 Adnoddau

7.1 Yr adnoddau sydd ar gael i gynnal y gweithgarwch presennol

Dibynna'r Llyfrgell yn bennaf ar Lywodraeth Cynulliad Cymru am ei hariannu, er ei bod hefyd yn denu arian gan nifer o ffynonellau eraill, gan gynnwys cymorthdaliadau gan gyrff eraill, incwm o weithgareddau masnachol a'i chronfeydd elusennol ei hun.

Ceir crynodeb o'r Cymorth Grant a geir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y tabl isod:

	2010/11 £000	2011/12 £000	2012/13	2013/14
Cyllideb sylfaenol	10,972	10,972	10,746	10,525
Gostyngiad	(40)	(226)	(221)	(4)
Cymorth Grant gros	10,932	10,746	10,525	10,521
Heb incwm	(400)	(400)	(400)	(400)
Cyfanswm costau rhedeg	10,532	10,346	10,125	10,121
Grant cyfalaf	891	550	550	550
Grant cyfalaf penodol – Adnau Cyfreithiol	-	100	630	-
Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol	1,000	-	-	-
Grant pwrcasu ar gyfer y Casgliadau	611	305	305	305
Is-gyfanswm	13,034	11,301	11,610	10,976
Cost cyfalaf a dibrsiad	3,600	1,250	1,250	1,250
Cyfanswm	16,634	12,551	12,860	12,226

Caiff lefelau presennol y grant cyfalaf a'r grant pwrcasu eu torri'n sylweddol. Bydd yn anodd diwallu anghenion sylfaenol cyfredol y Llyfrgell gyda'r lefel yma o adnoddau. Caiff y gyllideb costau rhedeg eu gostwng mewn termau arian parod hefyd, ac unwaith y bydd effaith chwyddiant yn cael ei gymryd i ystyriaeth, bydd yr effaith yn sylweddol.

Ceir isod grynodeb o wariant ac incwm y Llyfrgell ar gyfer y cyfnod:

		2011/12 £000	2012/13 £000	2013/14 £000
Costau rhedeg				
	Gwariant:			
	Cyflogau	8,681	8,450	8,400
	Costau erial	2,129	2,129	2,129
	Cyfanswm gwariant	10,810	10,579	10,529
	Incwm:			
	Cymorth Grant	10,346	10,125	10,121
	Ffioedd a thaliadau	400	400	400
	Cronfeydd wrth gefn	64	54	8
			-	-
	Cyfanswm Incwm	10,810	10,579	10,529
Cyfalaf	Gwariant	1,222	1,180	1,050
	Incwm			
	Cymorth Grant	650	1,180	550
	Cronfeydd preifat a chodi arian	572	-	500
	Cyfanswm Incwm	1,222	1,180	1,050
Pwrcasu ar gyfer y Casgliadau	Gwariant	574	574	574
	Incwm			
	Cymorth Grant	305	305	305
	Cymorth Grant – costau rhedeg	200	200	200
	Cronfeydd preifat a chodi arian	69	69	69
	Cyfanswm Incwm	574	574	574
Cyllideb gros		12,606	12,333	12,153

7.2 Adnoddau y mae eu hangen er mwyn cyflawni datblygiadau yn y dyfodol

Mae'r gwariant a'r incwm a restrir yn adran 7.1 ar gael i ddiwallu anghenion gweithredol sylfaenol y Llyfrgell. Er mwyn cwblhau'r datblygiadau ychwanegol a restrir yn adran 6, bydd angen naill ai eu cyflawni gyda'r adnoddau

presennol neu, os bydd angen gwariant ychwanegol, bydd angen sicrhau arbedion eraill oddi fewn i'r gyllideb.

Cyflwynna'r toriad yn y cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer costau rhedeg a'r grantiau cyfalaf a phwrcasu dros gyfnod y strategaeth hon her sylweddol i'r Llyfrgell. Dilyna'r toriadau hyn gyfnod hir o ostyngiad yng ngwerth termau real yr adnoddau a ddarperir gan y Cynulliad. Felly, os yw'r Llyfrgell am geisio gweithredu'r datblygiadau newydd yna

- bydd angen arallgyfeirio adnoddau yn fewnol, a
- bydd angen denu ffynonellau cyllidol ychwanegol.

Er mwyn ymateb i'r heriau ariannol hyn mae'r Llyfrgell wedi bod yn gweithredu, a bydd angen parhau â'r rhaglen o ail-ddiffinio'r prosesau busnes. Bydd hyn yn canolbwyntio ar ddefnyddio technegau rheoli main er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Bydd angen cynnal archwiliad manwl o'r holl weithgareddau busnes fel rhan o'r rhaglen hon, a bydd angen sicrhau arbedion ariannol blynyddol o oddeutu £200K. Yn ogystal, bydd angen adleoli a/neu ail-bwrpasu adnoddau wrth i'r prosesau ac arferion gwaith newid.

Mae'r targed hwn yn uchelgeisiol a golyga bod angen archwilio costau gweithredu a staffio'r Llyfrgell yn ofalus. Bydd raid i unrhyw gyfle i adleoli neu ad-drefnu staff geisio sicrhau'r ailddyrrannu adnoddau gorau posib. Mae'n glir y bydd nifer y staff a gyflogir yn dirywio: lle bo modd, caiff hyn ei wireddu drwy golled naturiol, ond ni fydd hyn yn bosib ym mhob achos.

Bydd y Llyfrgell yn ceisio cynhyrchu cymaint o arian ag y bo modd trwy ei gweithgareddau masnachol. Ar hyn o bryd, £400,000 y flwyddyn yw'r nod, ond yn yr hinsawdd economaidd bresennol bydd yn her i gynnal y lefel hon dros y cyfnod cyfan. Bydd gweithgareddau codi arian y Llyfrgell yn rhoi cyfle i archwilio prosiectau newydd, wedi'u hariannu gan gymorthdaliadau a rhoddion o ffynonellau eraill. Bydd cronfeydd preifat elusennol y Llyfrgell yn parhau i gefnogi costau rhedeg, y rhaglen gyfalaf a phwrcasu eitemau ar gyfer y casgliad.

Bydd y Llyfrgell yn parhau i gyfrannu at y gronfa bensiw ac erbyn diwedd cyfnod y strategaeth hon amcangyfrifir y bydd y diffyg wedi ei ddileu yn sylweddol neu yn gyfan gwbl. Bydd hyn yn lleddfu rhywfaint o'r pwysau ariannol ar y Llyfrgell a'r staff yn y dyfodol.

8 Dangosyddion a thargedau perfformiad

Defnyddir dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i fesur cynnydd y Llyfrgell wrth ddarparu ei gwasanaethau ac wrth roi datblygiadau newydd ar waith. Fe'u rhestrir yng *Nghynllun Gweithredu* blynyddol y Llyfrgell. Cynigir targedau ar gyfer pob un o'r tair blynedd i'r Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth. Mae Dangosyddion Perfformiad Datblygu yn dueddol i newid o flwyddyn i flwyddyn.

9 Ymchwil a gwerthuso

Un o ddyletswyddau sylfaenol y Llyfrgell Genedlaethol yw cefnogi ymchwil. Mae'n cyfrannu i'r byd ymchwil ym meysydd creu a defnyddio deunydd ar ffurf ddigidol drwy waith deilydd y Gadair Casgliadau Digidol. Y mae hefyd yn cynnal ymchwil a gwerthusiad cymhwysol i sicrhau bod ei phrif weithgareddau yn cael eu cyflawni mewn modd deallus ac wedi eu monitro'n dda. Gwneir hyn drwy:

- rhaglen dreiglol o adolygiadau gwerth gorau o swyddogaethau a gweithgareddau penodol;
- defnyddio methodolegau cynllunio prosiect safonol yn achos pob datblygiad prosiect o bwys;
- defnyddio dangosyddion perfformiad, meintiol ac ansoddol, a chan gynnwys arolygon defnyddwyr.

10 Rheoli risg

Mae'r Llyfrgell yn cadw *Cofrestr Risg* ac yn ei diweddarau'n barhaus. Mae hon yn rhestru'r holl brif risgiau sy'n wynebu'r Llyfrgell wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau craidd. Yn achos pob risg priodolir math, amcangyfrif o'r effaith a'r tebygolrwydd, ac amcangyfrif cyffredinol, ynghyd â disgrifiad a datganiad o'r modd y mae pob risg yn cael ei rheoli.

Caiff y *Gofrestr Risg* ei hadrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Archwilio'r Llyfrgell.